# Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

**2019 dccc 2**

## RHAN 4

GORFODAETH

*Pwerau awdurdod gorfodi i wneud gwybodaeth etc. yn ofynnol*

### 10 Pŵer i wneud dogfennau neu wybodaeth yn ofynnol

(1) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi arfer y pwerau a roddir gan is-adrannau (2) a (3) mewn perthynas â dogfennau neu wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan yr awdurdod at ddiben ymchwilio i ba un a gyflawnwyd unrhyw drosedd o dan y Ddeddf hon mewn cysylltiad ag annedd sydd wedi ei lleoli yn ardal yr awdurdod gorfodi.

(2) Caiff swyddog awdurdodedig roi hysbysiad i berson o fewn is-adran (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gyflwyno, ar amser, mewn lleoliad, ac i berson a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw ddogfennau—

- (a) a bennir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad, neu sydd o fewn categori o ddogfen a bennir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad, a
- (b) sydd yng ngwarchodaeth y person neu o dan reolaeth y person.

(3) Caiff swyddog awdurdodedig roi hysbysiad i berson o fewn is-adran (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu, ar ffurf ac mewn modd a bennir yn yr hysbysiad, ac ar amser, mewn lle ac i berson a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw wybodaeth—

- (a) a bennir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad, neu sydd o fewn categori o wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, a
- (b) sy'n hysbys i'r person.

(4) Y personau o fewn yr adran hon yw—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Adran 10. (See end of Document for details)*

(a) person sy'n landlord o dan gontract meddiannaeth safonol neu sydd wedi bod yn landlord o dan gontract o'r fath;
(b) person sy'n ddeiliad contract o dan gontract meddiannaeth safonol, neu sydd wedi bod yn ddeiliad contract o dan gontract o'r fath;
(c) person sy'n asiant gosod eiddo neu sydd wedi bod yn asiant o'r fath.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (2) neu (3) gynnwys gwybodaeth ynghylch canlyniadau posibl peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

(6) Caiff person y cyflwynir unrhyw ddogfen iddo yn unol â hysbysiad o dan is-adran (2) neu (3) wneud copi o'r ddogfen.

(7) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan yr adran hon i unrhyw berson gyflwyno unrhyw ddogfen neu ddarparu unrhyw wybodaeth y byddai gan y person hawl i wrthod ei chyflwyno neu ei darparu, mewn achos yn yr Uchel Lys, ar sail braint broffesiynol gyfreithiol.

(8) Yn yr adran hon, mae "dogfen" yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi ar ffurfiau nad ydynt yn ffurfiau darllenadwy, ac mewn perthynas â gwybodaeth a gofnodir felly, mae unrhyw gyfeiriad at gyflwyno dogfen yn gyfeiriad at gyflwyno copi o'r wybodaeth ar ffurf ddarllenadwy.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 4 applied (ynghyd â modifications) (1.9.2019) by Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Darpariaeth Drosiannol ar gyfer Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr) 2019 (O.S. 2019/1151), rhlau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Adran 10.